Cenn@d

CHWEFROR 14 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 155

# Anarchiaeth ac awtocratiaeth: Mudiad Open Doors yn cyhoeddi Rhestr Gwylio'r Byd arall ar gyfer 2024

**Gallai cymunedau Cristnogol hirsefydlog ddiflannu mewn rhannau o Affrica Is-Sahara.**

Mae lleiafrifoedd Cristnogol ar draws dwyrain a gorllewin Affrica yn wynebu'r ddau fygythiad gwirioneddol o anhrefn treisgar lle mae yna fanteisio arnyn nhw gan jihadistiaid radical, a'r bygythiad arall gan lywodraethau unbenaethol a gefnogir gan bwerau mwy o'r tu allan i'r rhanbarth. Dyma un o ganfyddiadau brawychus Rhestr Gwylio'r Byd 2024, sy'n rhestru'r 50 gwlad lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth a'r gwahaniaethu mwyaf eithafol ledled y byd. Lladdwyd o leiaf 4,606 o Gristnogion oherwydd eu ffydd yn Affrica Is-Sahara (SSA) – ac mae'r nifer go iawn yn debygol o fod yn llawer uwch.

**Canfyddiadau allweddol eraill o restr eleni (safle ar Restr Gwylio'r Byd mewn cromfachau):**

• **Twf yn ehangder a dwyster erledigaeth ledled y byd**: 365 miliwn o Gristnogion (1 ym mhob 7 ledled y byd) bellach yn wynebu lefelau uchel o erledigaeth a gwahaniaethu ar sail eu ffydd – i fyny o 360 miliwn (adroddiad 2023).

• **Cynnydd mawr mewn trais ledled y byd, gyda chynnydd saith gwaith cymaint o ymosodiadau ar eglwysi, ysgolion Cristnogol ac ysbytai**; o 2,110 (Rhestr 2023) i 14,766 (Rhestr 2024). Ymosodiadau ar gartrefi hefyd wedi codi 371 y cant.

• **Mae Gogledd Corea (1) yn parhau i fod y lle mwyaf peryglus i fod yn Gristion**, gydag adroddiadau fod nifer helaeth o'r rhai oedd wedi dianc i Tsieina yn cael eu gorfodi i ddychwelyd.

• **Tsieina (19) yn tynhau ei gafael a mynegi ei hawdurdod yn erbyn Cristnogaeth**, gan gau oddeutu 10,000 o eglwysi tai, a chynyddu ei gwyliadwriaeth seibr ar Gristnogion.



Cartrefi a cheir wedi eu llosgi gan ymosodwyr Fulani, Nigeria

• **Cynnydd aruthrol mewn erledigaeth dreisgar yn India (11),** gyda lladd Cristnogion ar sail ffydd yn codi o 17 (Rhestr 2023) i 160, a 62,000 yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi yn ystod y cyfnod yr adroddir arno. Mae hyn yn cael ei yrru'n rhannol gan y trais sy'n parhau yn nhalaith Manipur ers mis Mai 2023, lle targedwyd Cristnogion mewn ymosodiadau a gafodd eu trefnu ymlaen llaw.

"Fe wnaethon ni ddarganfod bod llawer o'r tai a gafodd eu dinistrio yn y terfysg wedi'u marcio â chylch a chroes goch ychydig fisoedd ynghynt gan Eithafwyr Meitei. Roedd hyn wedi'i gynllunio fisoedd ynghynt." **Chung Mang, arweinydd Cristnogol o Manipur.**

Rhannodd partneriaid Open Doors adroddiadau dilys am bum menyw Gristnogol Kuki a gafodd eu llusgo'n noeth, eu gorfodi i orymdeithio i lawr y stryd a'u treisio. Gadawodd y trais 160 o Gristnogion yn farw, a chadarnhawyd bod 62,000 wedi'u dadleoli o'u cartrefi. Mae miloedd yn aros mewn gwersylloedd i bobl wedi eu dadleoli, heb unrhyw obaith o gael dychwelyd adref yn ddiogel.

Yn y cyfamser mae ymosodiadau gan genedlaetholwyr Hindŵaidd ar



Mewn gwersyll i bobl wedi eu dadleoli ym Manipur

Gristnogion yn parhau ar draws India gydag achosion o lawer o lefydd am drais torfol yn erbyn Cristnogion a Mwslemiaid mewn sawl talaith.

**India mewn niferoedd**

• Cynnydd naw gwaith yn nifer y marwolaethau Cristnogol ers Rhestr 2023: o 17 i 160

• Cynnydd aruthrol mewn ymosodiadau ar eglwysi ac ysgolion Cristnogol, o 67 y llynedd i 2,228

• Ymosodiadau ar 5,900 o gartrefi Cristnogol, gan godi o 180 yn adroddiad 2023.

**Newyddion eraill**

**Iran (9) – Merched, Rhyddid Bywyd**

Yn dilyn y gwrthdystiadau "Menywod, Rhyddid Bywyd", a daniwyd yn sgil marwolaeth Mahsa Amini yn nwylo Heddlu Moesoldeb Iran, mae awdurdodau Iran wedi tynhau eu gafael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf dros unrhyw rai y tybir eu bod yn anghytuno â nhw.

Mae'r awdurdodau'n gweld Cristnogaeth fel ymgais Orllewinol i danseilio'r drefn Islamaidd. Cosbir arweinwyr eglwysig yn llym, yn aml gyda dedfrydau hir o garchar. Bu cynnydd yn ymwneud y Corfflu Gwarchodol Chwyldroadol Islamaidd (IRGC) yno mewn cyrchoedd ar eglwysi tai.

(parhad ar y dudalen nesaf)

Dathlu Canfed Synod Mizoram, 1–10 Rhagfyr 2023
Tudalen 3

Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 1 – Proffwydol
Tudalen 6

Taro'r Post
Tudalen 8

*Anarchiaeth ac awtocratiaeth: Mudiad Open Doors yn cyhoeddi Rhestr Gwylio'r Byd arall ar gyfer 2024*
*(parhad o dudalen 1)*

**Gogledd Corea (1) – dychwelyd i uffern fyw**
Ynghanol nos ar 9 Hydref 2023, tra oedd y byd yn canolbwyntio ar Israel a Gaza, fe fu awdurdodau Tsieineaidd wrthi'n dawel yn dychwelyd tua 600 o bobl oedd wedi ffoi yno o Ogledd Corea, gan gynnwys llawer oedd wedi dod yn Gristnogion – i gyd fel rhan o bolisi Tsieineaidd newydd, mewn cydweithrediad â Pyongyang. Tybir bod y rhan fwyaf o'r 600 hyn yn ferched. Wedi dychwelyd, maent yn wynebu artaith, cam-drin rhywiol a llafur caled yng ngwersylloedd carchar enwog y wlad. Mae Gogledd Corea yn parhau i fod yn rhif un ar Rhestr Gwylio'r Byd, am yr 22ain tro mewn 23 mlynedd.

**Nicaragua (30)**
Yn ôl Comisiwn yr Unol Daleithiau ar Ryddid Crefyddol Rhyngwladol mae 17 o glerigwyr yn y ddalfa yn Nicaragua ar hyn o bryd, gan gynnwys dau esgob Catholig. Mae unbenaethiaid yn America Ladin yn dod yn fwyfwy gelyniaethus i'r Eglwys, gan ei bod yn llefaru'r gwirionedd wrth y rhai sydd mewn grym. Neidiodd Nicaragua 20 lle ar y rhestr mewn blwyddyn – sy'n rhyfeddol i genedl ag 83 y cant yn Gristnogion.




Milwyr ar ddyletswydd yng ngogledd Corea

**Llygedyn o obaith**
**Mali (14)**: Ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y pleidleiswyr gyfansoddiad newydd a allai baratoi'r ffordd ar gyfer dychwelyd i reolaeth sifil. Yn y cyfansoddiad newydd ceir cydnabyddiaeth amlwg o'r lleiafrif Cristnogol yn y wlad.

**India**: Disodlwyd Plaid y BJP Hindŵaidd-genedlaethol yn etholiadau gwanwyn 2023 gan Blaid y Gyngres yn Nhalaith Karnataka gydag addewid i adolygu deddfau gormesol sy'n gwahardd newid crefydd.

Ceir gwybodaeth ychwanegol am Restr Gwylio'r Byd ar wefan Open Doors, https://www.opendoors.org/en-US/persecution/countries/ ac addewid y bydd adnoddau Cymraeg am Restr Gwylio'r Byd 2024 ar gael yn fuan.

| 4,998 | 14,766 | 4,125 |
|---|---|---|
| Cristnogion a lofruddiwyd | Eglwysi ac eiddo Cristnogol yr ymosodwyd arnynt | Cristnogion mewn dalfa |



# Dathlu Canfed Synod Mizoram, 1–10 Rhagfyr 2023



Aled a fi yn swyddfa'r KTP lle mae portread o Nhad, y Parch. O. W. Owen a sylfaenodd y KTP gyda'r arloeswyr Mizo ifanc yn 1954



Y gynulleidfa yn un o gyfarfodydd cyhoeddus y Synod

Yn briodol iawn, cynhaliwyd y Synod hanesyddol yma yng nghapel Mission Veng, 'pentref' y cenhadon sy'n rhan bellach o ddinas fawr Aizawl. Addaswyd yr adeilad nifer o weithiau ac erbyn hyn mae ynddo le i dair mil o addolwyr. Roedd Aled, fy mab, a minnau ymysg y 1,200 o gynrychiolwyr, a braint oedd cael cynrychioli EBC fel Llywydd y tro hwn yn yr eglwys lle cefais fy medyddio! Dyma ymweliad cyntaf Aled a chafodd groeso rhyfeddol.

Gwên gyfarwydd a chynnes y Parch. John Colney a'n croesawodd, a bu'n gofalu trosom trwy gydol yr amser gyda'r holl fynd a dod rhwng y cyfarfodydd o fore gwyn tan nos. Diolch iddo ac i'r Synod am eu lletygarwch ac am y fraint a'r anrhydedd o gael agor y Gair ac adnewyddu'r berthynas ddofn sydd rhyngom trwy ymweliadau a chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol.

Y cyntaf o rai ffurfiol y Synod oedd y Pwyllgor Bugeiliol (Synod Pastoral Committee). Dyma'r pwyllgor oedd yn dethol deuddeg o weinidogion ar brawf (Pro-Pastors) i'w hordeinio yn ystod eisteddiad llawn y Synod. Roedd 99 o ymgeiswyr addas gerbron a neilltuwyd dau ddiwrnod llawn i'r gwaith.

Trosglwyddwyd y llywyddiaeth yn yr eisteddiad cyntaf cyn symud ymlaen at dderbyn adroddiadau'r Pwyllgor Enwebu a'r Weinidogaeth. Darparwyd cyfieithiad ar y pryd ar ein cyfer, a da o beth oedd hynny gan fod y sesiynau'n hirfaith ac yn cynnwys oedfaon llawn gyda thri chôr yn canu a phregeth bob dydd. Er bod y niferoedd yn fawr, cafwyd sylwadau treiddgar a chwestiynau o'r llawr, a'r Llywydd newydd yn troi yn aml at yr Ysgrifennydd Cyffredinol a'r swyddogion eraill! Yn wahanol i ni, cofnodwyd y cyfan mewn llawysgrifen ac mewn llyfr, gan dderbyn cywirdeb neu gywiriadau ar ddiwedd pob eisteddiad. Tipyn o gamp.

Fe fydd y Synod yn penderfynu ar leoliad newydd i weindogion wedi pum mlynedd o wasanaeth mewn gofalaeth. Dyma oedd cynnwys adroddiad Pwyllgor y Weinidogaeth, a chafwyd cadarnhad hefyd o leoliad y cenhadon a phenodiad yr 'arolygwyr' ardal sy'n gyfrifol am gefnogaeth i nifer o genhadon a'u teuluoedd mewn meysydd cenhadol neu ddinasoedd. Dyma swyddogaeth bwysig gan fod nifer o'r meysydd hyn mewn ardaloedd o fygythiad i Gristnogion gan fod deddfau penodol yn India yn gwahardd pob ymdrech at dröedigaethau crefyddol.

Trafodwyd materion ehangach hefyd, megis y ddarpariaeth sydd gan y Synod ar gyfer pobl sy'n byw gydag anableddau, yr angen i ddatblygu hynny a'r gwasanaethau cynghori i deuluoedd ac i'r boblogaeth trwy ddarparu llinell gymorth 24 awr. Dyma gyfle i ni fedru cynnig arweiniad efallai, gan fod gennym ddeddfau a gweithdrefnau aeddfed bellach yng Nghymru a phrofiad mudiadau elusennol sy'n darparu cefnogaeth dros y ffon.

Mynegwyd pryder am ymgais y Llywodraeth ganolog i gyflwyno'r 'Uniform Civil Code'. Bwriad hwn yw diddymu'r hawl presennol sydd gan unigolion i fyw yn ôl arferion a thraddodiadau eu dewis grefydd – arferion priodi a chladdu'r meirw, er enghraifft. Mae'r ymdrech yma'n bygwth rhyddid crefyddol y crefyddau lleiafrifol yn India ond yn rhan allweddol o faniffesto'r Llywodraeth. Yn ystod cyfnod y Synod derbyniwyd canlyniadau'r etholiadau taleithiol ac fe gafwyd newid sylfaenol ym Mizoram gyda'r blaid newydd, Llais Pobl Mizoram, yn ennill mwyafrif am y tro cyntaf. Ffurfiodd lywodraeth sydd wedi ymrwymo i ddileu llwgrweithredu a chyflwyno rheolaeth lem ar wariant i geisio lleihau dyled Mizoram. Mae nifer o'r gweinidogion newydd yn y Llywodraeth yn aelodau ac yn flaenoriaid yn yr Eglwys Bresbyteraidd.

Mae'r Synod hefyd yn canoli'r paratoadau ar gyfer gwersi'r ysgolion Sul ac yn cynhyrchu rhaglenni a thaflenni gwaith trwy wasg y Synod. Cynhelir yr ysgolion Sul bob bore Sul ac mae cydnabyddiaeth i'r rhai sydd wedi bod yn ffyddlon ar hyd y flwyddyn. Cafodd Aled a minnau gyfle i ymweld ag Ysgol y Bechgyn yn Mission Veng ac ysgol uwchradd fechan yn Hawlong, pentref i'r de o Aizawl. Clywsom y disgyblion yn arwain ei gilydd yn y gwasanaeth boreol, a phob un yn darllen o'r Beibl ac yn canu emynau dan arweiniad un o'r disgyblion hynaf a grŵp cerddorol yn cynnwys drwm Mizo, hyd yn oed yn y dosbarthiadau iau. Maent wrth eu boddau yn canu ac yn cefnogi ei gilydd.

Un o'r cyfleon annisgwyl a ddaeth i'n rhan oedd gwahoddiad gan Adran o'r Llywodraeth – Adran Celfyddyd a Diwylliant – i fod yn brif westai yng nghystadleuaeth y bandiau roc i ysgolion uwchradd, a hynny er mwyn cyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr ar lefel talaith. Rhaid cyfaddef i mi ofyn am wlân cotwm i'w roi yn fy nghlustiau gan ein bod wedi ein gosod i eistedd yn y blaen gyferbyn â'r *subwoofer* bas! Ond roedd safon y grwpiau yn eithriadol o uchel a'u hyder cerddorol yn amlwg. Buom yn gwrando




Croeso mawr gan y Parch. John Colney a chyfweliad teledu i'r ddau ohonom
Dyma'r ddolen i'r cyfweliad ar deledu'r Synod: https://youtu.be/iM7mxx4smdA?feature=shared

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Canfed Synod Mizoram, 1–10 Rhagfyr 2023*
*(parhad o dudalen 3)*



Ysgrifennydd y Synod yn cofnodi â llaw a'r Ysgrifennydd Cyffredinol (Zorammawia) yn annerch y Synod

drwy'r pnawn a chael gwahoddiad wedyn i annerch y plant a oedd yn llenwi'r neuadd ac yn fyw ar deledu'r wlad.

Roedd y profiad yn wahanol iawn i eistedd yn y Synod, ond un oedd yn cadarnhau bod gan yr Eglwys ddiddordeb yn natblygiad diwylliannol ieuenctid Mizoram a'u bod am geisio cryfhau'r cysylltiadau â bywyd diwylliannol Cymru dros y blynyddoedd nesaf, fel sydd wedi digwydd gyda Phrifysgol Martin Luther yn Shillong.

O ystyried datblygiad addysg uwch ym Mizoram cafwyd trafodaeth yn y Synod hefyd a chefnogaeth i sefydlu Prifysgol Gristnogol Mizoram dan nawdd y Synod. Gofynnwyd am gymorth o Gymru i anfon tiwtoriaid ym maes cerddoriaeth Gristnogol ac yn yr iaith Saesneg. Cefais gyfle hefyd i drafod datblygiad yn y berthynas gyda'r Coleg Diwinyddol i gadarnhau'r trafodaethau sydd eisoes ar y gweill i anfon darlithwyr o Gymru yno am gyfnod. Hefyd, iddynt hwythau ystyried cyflwyno modiwl ar ddysgu Cymraeg fel pwnc atodol dros y we i rai myfyrwyr o'r Coleg Diwinyddol ac o'r Coleg Nyrsio sydd yn Ysbyty Durtlang.



Ymweliad ag ysgol uwchradd Haulawng a'r brifathrawes newydd, Zodini, yn ffrind agos i ni ers 1994

Soniais i mi gael cyfle i bregethu yn y Synod ar y dydd Sadwrn olaf yn dilyn gwasanaeth y Cymun oedd yn cloi'r Synod. Roeddwn yn bryderus oherwydd bod y cyfieithydd angen copi o'r bregeth a finnau ddim yn arfer ysgrifennu pregethau air am air! Ond dewisiais destun o Colosiaid 1 – yr emyn o fawl i Grist sydd yno, gan obeithio y byddai'r cynrychiolwyr yn troi eu golwg ar yr Arglwydd cyn troi am adre. Fy ngobaith oedd y byddai'r olwg yna ar fawredd a gostyngeiddrwydd Crist yn anogaeth iddynt ddychwelyd eto i fannau dyrys a pheryglus. Un o'r mannau hynny ydi Manipur, a chefais gyfle i gyfarfod rhai o'r cynrychiolwyr a ddaeth oddi yno a'u holi sut y medrem estyn cymorth iddynt. Mae'r dulliau yn gymhleth o'r ddwy ochr ond, diolch i'r Arglwydd, mae Mizoram yn ddinas noddfa i'r ffoaduriaid o Manipur, o Myanmar, ac o Bangladesh sy'n dianc rhag trais, ac mae'r Synod yn cadw'r drws ar agor gan ystyried fod pawb yn frodyr ac yn chwiorydd iddynt.



Dr Sanga sy'n arwain y gwaith gyda'r gwasanaeth gofal lliniarol a'r uned ddibyniaeth yn Ysbyty Durtlang. Bu yma yng Nghymru yn 2006 yn codi ymwybyddiaeth o'r anghenion a bu i EBC ymateb trwy gyfrannu tuag at sefydlu uned Grace Home ar gampws yr ysbyty.

Mae un o sylwadau Aled ar ddiwedd ei ymweliad yn fynegiant o'r hyn a gefais innau'r fraint o'i ddirnad dros y blynyddoedd wrth ymweld â Mizoram, sef bod cariad Crist i'w weld a'i deimlo ym mhob rhan o fywyd yr eglwys ym Mizoram – nid yn unig yn ei haddoliad, ond yn ei chymuned. Mae'r eglwys yn cyfarfod ag anghenion pobl Mizoram mewn ffordd aberthol, gyson, a'i chariad yn ddiragrith. Mae cariad Crist i'w deimlo yno.

Diolch i EBC am y fraint o gael eich cynrychioli yn y cyfarfod hanesyddol yma o'r Synod a gweddïwn am fendith yr Arglwydd ar ddyfodol ein perthynas yng Nghrist.

*Aneurin Owen*
*Llywydd y Gymanfa Gyffredinol,*
*Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

# Portread o John Calfin a'i ddylanwad o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru (rhan 2)

**Dylanwad Calfin**

Gellir crynhoi rhai o brif nodweddion ei ddylanwad fel a ganlyn:

a. Trefnydd o'r radd flaenaf: deuai pobl i Genefa i dderbyn hyfforddiant ar y modd i drefnu'n dda, ac yna'n dychwelyd i'w hardaloedd i weithredu Calfiniaeth.
b. Cenhadwr: gwelwyd ei ddylanwad yn treiddio i wledydd Ewrop, yn arbennig Ffrainc, yr Iseldiroedd, yr Alban, Gwlad Pwyl a Hwngari, heb anghofio Cymru fach.
c. Pregethwr: roedd yn bregethwr trefnus, a byddai'n fuddiol i bawb ohonom ddarllen ei bregethau heddiw, er nad oedd yn meddu ar huodledd John Elias, na David Saunders, na Jubilee Young o Lanelli.
ch. Meddyliwr gwleidyddol: gwelir newid yn ei agwedd yn niwedd ei oes ar ôl yr ymrafael yn Ffrainc a'r Iseldiroedd. Bu ef a'i ddisgybl pennaf, Theoldore Beza, yn barod i ystyried cefnogi chwyldro. Daeth Calfiniaeth yn ddiwinyddiaeth oedd yn barod i groesawu a choleddu chwyldro gwleidyddol, a dyna un rheswm pam y bu inni weld yng Nghymru Galfiniaid a groesawodd y chwyldro yn Rwsia yn 1917 ac a ddaeth yn aelodau cynnar o'r Blaid Gomiwnyddol.
d. Llenor ac esboniwr Beiblaidd: lluniodd esboniadau ar y rhan fwyaf o gyfrolau'r Testament Cyntaf a'r Ail Destament.
dd. Diwinydd etholedigaeth: roedd hwn yn syniad pwysig a chanolog yn hanes gwareiddiad y Gorllewin, fel y dadleuodd Max Weber ac R. H. Tawney. Bu Calfiniaeth yn bwysig yn natblygiad cyfalafiaeth ar hyd y degawdau.
Ysgolhaig: yn ei gyfrol fechan hyfryd, *The Christian Scholar in the Age of Reformation* (1956), mae E. Harris Harbison yn cloriannu ysgolheictod fel galwad Gristnogol, er enghraifft yn hanes Jerome, Awstin Sant, Abelard, Tomos o Acwin, ac mewn tri yn benodol – Erasmus, Luther a Chalfin. Mae Harbison yn cyfrif Calfin yn athrylith am ei fod yn medru rhoi trefn ar ddysg. Meddai ar barch dwfn

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

***Portread o John Calfin a'i ddylanwad o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru (rhan 2)***
*(parhad o dudalen 4)*

> at ffeithiau am Dduw, am ddyn, ac am y greadigaeth. Ac i Calfin rhaid i ysgolheictod fod yn ddefnyddiol ar gyfer bywyd y bobl gyffredin.

Er ei holl alluoedd meddyliol ac ysbrydol ni chafodd gorff yr un mor iach. Bu'n wantan ar hyd ei oes, fel myfyriwr ac fel oedolyn. Erbyn 1563 dioddefai o lu o anhwylderau, ond daliodd ati i lunio llythyron, i gynghori, ac i bregethu. Traddododd ei bregeth olaf o'i wely, a chariwyd ef ar ei wely i Eglwys Sant Pierre. Daeth ei boen i ben ar 27 Mai 1564. Roedd Theodore Beza gydag ef i'r diwedd, a dywedodd: 'On that day, with the setting sun, the brightest light that was in the world for the guidance of God's Church, was taken back to heaven.' Nid oedd Calfin yn dymuno clod. Bu farw ar ôl dweud y geiriau: 'Mae'r cyfan a wneuthum yn dda i ddim ... Rwy'n greadur truenus.' Claddwyd ef mewn bedd cyffredin, ac ni roddwyd, ar ei gais, 'garreg fedd i nodi lle y ceir ei gorff'. Ond fe gofir amdano ledled y byd ac yn arbennig yn ein Cyfundeb ni yng Nghymru sy'n arddel ei enw.

Rwyf am grynhoi cyfraniad disgyblion Calfin yn bedwar categori.

Yn gyntaf, y Calfiniaid dramatig. Dyma'r disgyblion oedd ar dân dros Grist, gwir etifeddion y Diwygiad Methodistaidd Calfinaidd yn y ddeunawfed ganrif fel Daniel Rowland, Howell Harris, William Williams, Peter Williams, Howell Davies a David Jones, Llangan – pencampwyr y pulpud Cymraeg. Cytunir mai'r mwyaf o bregethwyr dramatig y to cyntaf o weinidogion a ordeiniwyd yn 1811 oedd John Elias o Fôn. Meddyliwch am Elias yn rhoi taw ar y rasys ceffylau ym Manceinion drwy weddïo ar i Dduw ymyrryd, a chenllif digymar o law fel ag a geir yn gyson yng Nghapel Curig yn rhoi terfyn disyfyd ar y rhialtwch.

Ond nid ef oedd yr unig un a lwyddai i gau tafarnau a sefyll yn gadarn dros egwyddorion Crist. Fe'i dilynwyd gan ugeiniau o bregethwyr Calfinaidd oedd bron gyfuwch ag ef, fel Michael Roberts, Pwllheli; Ebenezer Richards, Tregaron; John Jones, Tal-y-sarn; John Williams, Llecheiddior; Henry Rees, Lerpwl; Owen Thomas, Lerpwl; Hugh Jones, Lerpwl; Joseph Thomas, Carno; Edward Morgan, y Dyffryn; Edward Matthews, Ewenni; a William Roberts, Amlwch.

Yn ail, y Calfiniaid clasurol. Dyma'r Calfiniaid oedd yn dilyn ôl troed Calfin fel addysgwyr y werin a'r enwad. Rhaid rhoi lle arbennig iawn yn y fan hon i Thomas Charles a'i *Hyfforddwr*, *bestseller* y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a Thomas Jones o Ddinbych a'i gyfrol orchestol, *Merthyrdraith* (1,165 o dudalennau) a gyhoeddwyd yn 1813 a'i bwyslais ar sofraniaeth Duw, ar ryddid cydwybod ac ar bwysigrwydd y genedl Gymraeg. Mewn gair, gwareiddiad Cristnogol ar ei orau. Nid rhyfedd i Saunders Lewis gael ei gyffwrdd gan lu o'r rhain, fel y gwelwn yn ei nofel hyfryd *Merch Gwern Hywel*.

Ac o'r traddodiad Calfinaidd y cawsom gylchgronau fel *Y Drysorfa*, a'i golygydd deallus, Roger Edwards, ac yn arbennig *Y Traethodydd*, dan Lewis Edwards ac Owen Thomas, a'r rhyfeddod mwyaf o'r cyfan, *Y Gwyddoniadur Cymreig* a'i olygydd cyntaf, o'r Bala, John Parry (1812–74), a'i gyhoeddwr, Thomas Gee. Beth oedd arbenigrwydd John Parry? Ei feistrolaeth lwyr ar ddiwinyddiaeth y Diwygiad Protestannaidd, yn arbennig ar waith John Calfin yn y Lladin gwreiddiol.

Enwaf un arall yn unig, sef Dr John Harris Jones (1827–85), gŵr o Langeler, a fu'n Athro yng Ngholeg Trefeca o 1865 hyd 1885. Derbyniodd ei addysg yng Ngholeg Caerfyrddin, Prifysgol Glasgow a Phrifysgol Göttingen a lluniodd draethawd ymchwil nodedig. Nid oedd neb yn y Cyfundeb yn oes Fictoria yn gwybod mwy am ysgolheictod y Cyfandir – yr Almaen, yr Iseldiroedd a'r Swistir – nag ef, ac ni wyrodd gam o'r ffydd Galfinaidd.

Yn drydydd, y Calfiniaid Efengylaidd. Dyma faes toreithiog sy'n haeddu llawer mwy o sylw na'r cyfeiriad byr hwn, ond gwn fod yr awch am achub enaid, y nwyd Methodistaidd, wedi dylanwadu ar lu o Galfiniaid cadarn. Pobl a fagwyd yn ne Cymru, lle mae'r Cyfundeb yn prysur farw allan heddiw, oedd llawer o'r rhain. Meddylier am y rhai a fagwyd yng nghymoedd Morgannwg, lle roedd y diwydiant glo yn cyfoethogi Calfiniaid fel David Davies, Llandinam, a William Abraham (Mabon). Hwy oedd y pregethwyr a ddefnyddiwyd yn helaeth fel efengylwyr. Cymerer, er enghraifft, William Evans (1795–1891) – 'Cloch Arian Tonyrefail' – a gafodd oes hir i gyhoeddi ei neges ac a ledaenodd Fethodistiaeth Galfinaidd ym Morgannwg yn nyddiau'r cynnydd mawr.

Cofier hefyd am fudiad pwysig y Symudiad Ymosodol a'r Calfiniaid efengylaidd a fu wrth y llyw, o ddyddiau Dr John Pugh i'r Parchedig Ieuan Phillips. Yn yr ugeinfed ganrif rhaid rhoi'r lle blaenaf i'r Dr D. Martyn Lloyd-Jones, Aberafan a Llundain, a'i ddylanwad ar lu o wŷr a merched ifanc a fu'n gynheiliaid y traddodiad Calfinaidd i'n hoes ni. Ymysg y rhai mwyaf adnabyddus yr oedd yr awdur a'r emynydd Vernon Higham, gweinidog yn Eglwys Efengylaidd Caerdydd am 40 mlynedd, ac Eifion Evans, fferyllydd, gweinidog ac awdur nifer o gyfrolau ar hanes yr eglwys.

Yn bedwerydd, y Calfiniaid beirniadol. Dyma ddosbarth diddorol o fewn yr enwad – y rhai sy'n finiog, yn gwyro weithiau oddi wrth galon dyner, ddwys Calfiniaeth, ac eto'n cadw'n gadarn i'r seiliau. Mae'n debyg mai'r mwyaf nodedig ohonynt i gyd yw Emrys ap Iwan (Robert Ambrose Jones, 1851–1906), gŵr a dreuliodd ei oes yn Nyffryn Clwyd. Ef oedd arloeswr yr ymdeimlad pwysig fod angen gwarchod yr iaith Gymraeg, tad erthyglau pigog, dadleuol, a ddilynai lwybrau'r Calfiniaid gwleidyddol.

Bu'r Cyfundeb yn nodedig am y Calfiniaid gwleidyddol ym mhob plaid, o leiaf ymhlith y Rhyddfrydwyr, y Sosialwyr a'r Cenedlaetholwyr, sy'n arddel safbwynt Emrys ap Iwan. Mae ei berorasiwn enwog yn rhan o'r gwneud: 'Cofier mai'r Duw a wnaeth ddynion a ordeiniodd genhedloedd hefyd; ac y mae difodi cenedl y trychineb nesaf i ddifodi dynol-ryw, a difodi iaith cenedl y trychineb nesaf i ddifodi'r genedl, am fod cenedl yn peidio â bod yn genedl ymhen mwy neu lai o amser ar ôl colli ei hiaith.'

Ymysg Calfiniaid beirniadol yr ugeinfed ganrif cawn Dr Cynddylan Jones; Dr John Owen, Morfa Nefyn; Dr R.Tudur Jones a'r Parchedig S. O. Tudor a'i glasur o gyfrol, *Beth yw Calfiniaeth*. Gweinidog gofalus a galluog oedd S. O. Tudor a chofiaf yn dda amdano'n gofalu amdanaf pan deithiais i fyny yn weinidog ifanc o Abercynon i Bwllheli i bregethu yn 1966 yng Nghymdeithasfa'r Gogledd. A'i folawd ef i Galfiniaeth sy'n cloi'r ysgrif hon:

> Calfiniaeth yw'r grefydd sy'n dysgu bod moesoldeb wedi ei pherffeithio gan sancteiddrwydd Duw; bod egwyddorion moesol yr Efengyl yn treiddio'n ddwfn ac yn eang i bob gwedd a phob congl o fywyd cymdeithas, bod Duw yn hollalluog nes peri bod gwrthwynebiad i'w ewyllys hyd yn oed yn cael ei droi'n gyfrwng i ddwyn ei ddibenion Ef ymlaen; bod pob teulu o gredinwyr sy'n byw dan ei deyrnas Ef, yn deulu Duw; bod ein bywyd tymhorol yn y byd hwn, gan ein bod o fewn y cyfamod, o'r un natur â'r bywyd a fwynheir gennym yn llawn ymhen y rhawg y tu hwnt i'r llen, bod y cwbl a wyddom ac a ddymunwn, ac a gawn yn feddiant inni, trwy ras a daioni ein Tad nefol, ac nid trwy ein teilyngodd na'n cyfiawnderau ni ein hunain.

Gellir hefyd grynhoi agwedd, cyfraniad a diwinyddiaeth John Calfin i frawddeg glo y Gyffes Fer o'n Ffydd: 'Diben pennaf dyn yw gogoneddu Duw, a'i fwynhau byth ac yn dragwyddol.'

*D. Ben Rees*

# Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 1 Proffwydol

**A hithau bellach ar drothwy'r Grawys, byddwn yn cynnwys cyfres o fyfyrdodau gan Gymorth Cristnogol ar gyfer yr wythnosau hyn. Byddwn yn dychwelyd at *Gair Duw ar Waith* ar ôl y Pasg.**

## Gofyn Ymlaen Llaw: cwestiwn i'w ystyried cyn y sesiwn hon

Pwy fasech chi'n ei ystyried yn broffwyd yn ein dyddiau ni?

## Darlleniad o'r Ysgrythur: Amos 5.11, 21–4

Felly, am i chi drethu pobl dlawd yn drwm
  a dwyn yr ŷd oddi arnyn nhw:
Er eich bod chi wedi adeiladu'ch tai crand o gerrig nadd,
  gewch chi ddim byw ynddyn nhw.
Er eich bod chi wedi plannu gwinllannoedd hyfryd,
  gewch chi byth yfed y gwin ohonyn nhw.

Dw i'n casáu eich gwyliau crefyddol chi, ac yn eu diystyru nhw.
  Dydy'ch addoliad chi'n rhoi dim pleser i mi.
Er i chi ddod i gyflwyno aberthau i'w llosgi i mi,
  ac offrymau bwyd, wna i ddim eu derbyn nhw.
Gallwch ddod ac offrymu eich anifeiliaid gorau i mi,
  ond fydda i'n cymryd dim sylw o gwbl!
Plîs stopiwch ddod yma i forio canu eich emynau,
  does gen i ddim eisiau clywed sŵn eich offerynnau cerdd chi.
Beth dw i eisiau ydy gweld cyfiawnder fel dŵr yn gorlifo,
  a thegwch fel ffrwd gref sydd byth yn sychu.

**Mae 88% o oedolion y DU yn meddwl y dylid gwneud mwy i fynd i'r afael â thlodi.**
Ffynhonnell: Pol *Yougov* ar gyfer Cristnogion yn erbyn Tlodi, Mawrth 2023
**Fe wnaeth 3.8 miliwn o bobl yn y DU brofi amddifadedd yn 2022.**
Ffynhonnell: Sefydliad Joseph Rowntree
**Mae dros 1 biliwn o bobl yn y byd mwyafrifol yn byw mewn tlodi.**
Ffynhonnell: Mynegai Tlodi Amlddimensiwn Byd-eang 2023.

## Myfyrdod: Beth ydy proffwyd? Sut fedrwn ni ganfod ein llais proffwydol?

Beth ydy proffwyd? Beth ddaw i'ch meddwl pan glywch chi'r gair hwnnw?

Mae'n bosib eich bod yn ystyried proffwyd fel rhywun eithriadol, rhywun sydd wedi'i fendithio â'r ddawn i godi ei lais a llefaru, dan arweiniad Duw, mewn ffordd arbennig. Awgryma Paul y gall llefaru'n broffwydol fod yn alwad neilltuol (Effesiaid 4.11–12). Fe welwn ni hyn mewn sawl unigolyn yn y Beibl, ar hyd hanes, ac efallai o'n cwmpas ni heddiw.

Serch hynny, ochr yn ochr â'r alwad neilltuol hon, ceir ymdeimlad ehangach yn yr ysgrythur fod pob un ohonon ni wedi'n galw i lefaru â "llais proffwydol" ar adegau. Yn y sesiwn hon, rydyn ni eich gwahodd i archwilio sut y gall canfod a meithrin eich llais proffwydol, fel unigolyn ac fel eglwys, fod yn fodd pwysig o ymateb i dlodi.

Gadewch inni ddechrau trwy glywed gan broffwyd o'r Hen Destament a oedd â chonsýrn mawr ynghylch tlodi.

**Darllenwch y darn uchod o lyfr Amos a myfyriwch am ychydig ar yr hyn sy'n sefyll allan i chi.**



Mae Amos yn mynnu nad rhywbeth sy'n digwydd trwy ddamwain ydy bodolaeth grwpiau cyfoethocach a thlotach. Yn hytrach, maen nhw'n bod fel canlyniad i ecsbloetio'n fwriadol y rhai hynny sydd mewn tlodi. Mae pobl mewn tlodi'n cael eu cadw mewn sefyllfa o amddifadedd trwy orfod talu 'ardollau o rawn'. Gallai hynny gyfeirio at lefelau trethu annheg, at lwgrwobrwyo, twyll a llygredd yn y systemau swyddogol, neu hyd yn oed ar ffurf caethwasiaeth ymrwymedig, lle mae pobl yn cael eu llwytho â beichiau dyledion nad oes modd iddyn nhw, mewn gwirionedd, fyth eu had-dalu. Parheir i weld arferion fel y rhain heddiw, er enghraifft, mewn achosion o gaethwasiaeth fodern.

Wrth ystyried pwy sy'n gyfrifol am sefyllfa fel hon, **mae Amos yn tynnu sylw at y rhai hynny a fethodd 'wneud yn siŵr fod tegwch yn y llysoedd' (5:15)**. Y llys, yn nyddiau Amos, oedd y fan lle cynhelid pob busnes swyddogol; y fan lle'r gwneid penderfyniadau gan y rhai hynny mewn grym a'r fan lle digwyddai trafodion o bwys. Mae'r proffwyd yn barnu'r rhai hynny sy'n defnyddio cyfoeth a grym i "weithio'r system". Mae'r rhai pwerus, meddai, yn gwneud twyllo yn rhan arferol o'r ffordd roedden nhw'n byw ac yn llywodraethu. Maen nhw'n 'defnyddio clorian sy'n twyllo … prynu am arian pobl dlawd sydd mewn dyled, a'r rhai sydd heb ddigon i dalu am bâr o sandalau'. (8:5–6)

**'fe wrthodwn gredu fod banc cyfiawnder yn fethdalwr … Na, na, dydyn ni ddim yn fodlon, a fyddwn ni ddim wedi'n bodloni nes bydd "tegwch yn llifo fel dyfroedd, a chyfiawnder fel afon gref."'**
Y Parch. Ddr Martin Luther King Jr. yn dyfynnu Amos yn ei araith enwog 'I Have a Dream' (1963)

I Amos, mae'r ymraniad strwythurol rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn mynd groes-graen i'r hyn a fwriadodd Duw. **Mae parhau i gefnogi'r gymdeithas anghyfiawn hon yn torri ar draws y ffordd y dylai'r byd fod a'r holl ddaioni y crëwyd bodau dynol i'w gyflawni.** Mae ceisio byw trwy anghyfiawnder mor hurt ac annaturiol â cheisio 'aredig y môr hefo ychen' (Amos 6:12).

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

S4C
***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 18 Chwefror am 7.30yh**
**Emynau Joseph Parry**
Bydd Lowri Morgan ym Merthyr Tudful i ddathlu bywyd a gwaith y cyfansoddwr disglair Joseph Parry – un o fawrion ein traddodiad canu mawl. A chawn fwynhau gwledd o emynau o Ganolfan Soar yn y dref.

BBC radio cymru
***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 18 Chwefror, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Karl Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 18 Chwefror, am 12yp**
Oedfa dan ofal Debbie Stammers, Caergybi

*Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 1*
*Proffwydol*
*(parhad o dudalen 6)*

**Mewn geiriau eraill, dydy'r ymraniad rhwng y cyfoethog a'r rhai hynny sy'n byw mewn tlodi yn dda i ddim i *neb*.** Dyna pam mae'r darlleniad hwn yn sôn am dai'r rhai cyfoethog heb neb yn byw ynddyn nhw a gwin eu gwinllannoedd yn aros heb ei flasu. Chaiff yr anghyfiawn ddim elwa'n diddiwedd.

Ond mae Amos hefyd yn mynegi'r syniad ei bod hi'n amhosib derbyn mwynhad llwyr o bethau a enillwyd trwy orthrymu eraill. Y rheswm am hyn ydy bod cyfranogi mewn gorthrwm yn niweidio ein perthynas â Duw, prif a gwir ffynhonnell ein holl lawenydd a'n hyfrydwch.

Mae'r darn yn mynd yn ei flaen i fynegi bod Duw yn gwrthod addoliad a offrymir gan y rhai sy'n methu delio â materion o gyfiawnder a gorthrwm.

**Beth mae Amos yn ei awgrymu inni heddiw ynglŷn â'r modd y gallen ni lefaru â llais proffwydol?**
Dyma rai posibiliadau. Efallai y bydd ganddoch chi eich syniadau eich hunain i'w hychwanegu at y rhain.

- Mae Amos **yn dreiddgar yn ei graffter** – mae'n amlygu'r hyn mae'n ei feddwl sy'n anghywir ac yn datgan hyn yn glir.
- I fod wedi gallu dirnad hyn, mae'n rhaid inni ragdybio fod y proffwyd yma wedi bod yn talu sylw. **Mae ei ymwneud yn ddwfn â'r cyd-destun.** Mae'n gwybod yn iawn beth sy'n digwydd. Efallai ei fod yn sefyllian o gwmpas y llys yn gwylio ac yn gwrando, yn sgwrsio â phobl sydd wedi'u twyllo. Efallai ei fod wedi ceisio'r rhai hynny sydd â phrofiad byw o ddioddef o dan y system ac yn gwrando ar eu hanesion.
- Mae Amos **yn llefaru'r gwir wrth y rhai hynny mewn grym**. Mae'n annerch yn uniongyrchol y rhai hynny sydd â'r grym ac yn eiriol dros newid. Mae'n ymwybodol bod hyn yn ei beryglu. Mae'n gwybod ei fod yn debygol o wynebu gwrthwynebiad gan y rhai grymus sy'n casáu 'unrhyw un sy'n dweud y gwir' (5:10). Gall llefaru'n broffwydol wneud i bobl deimlo'n anghysurus.

**'Cyhuddwyd y Cristnogion cynnar o droi'r byd ben-i-waered.
Petaem ni'n edrych ar y byd trwy lygaid [Amos],
fe fyddem ninau hefyd am wneud yr un peth.'
(Y Parch. Ddr David Isiorho)**

Yn dilyn esiampl Amos, felly, efallai yr hoffem ni feddwl am y canlynol:
- yr hyn a allen ni ei wneud i roi sylw i anghyfiawnder ac anghydraddoldeb yn ein cyd-destun ni.
- sut i weld a chanfod lle mae pethau wedi mynd o'u lle yn y strwythurau a'r systemau o'n cwmpas.
- yr hyn rydyn ni'n teimlo'n alluog i godi llais yn ei gylch a sut mae modd ein grymuso ein hunain ac eraill, gan ddatblygu ein gallu i lefaru'r gwir wrth y rhai hynny sydd mewn grym.

Er mwyn rhoi ychydig o enghreifftiau ymarferol ichi, gadewch inni wrando gyda'n gilydd ar leisiau ymgyrchydd yn y DU sydd â phrofiad byw o dlodi, ac ymgyrchydd ym Malawi sy'n helpu eglwysi i lefaru dros gyfiawnder.

**Gwrandewch ar: Ashleigh May, Mums on a Mission –**

https://soundcloud.com/actonpoverty
(8 munud)

Cewch glywed gan Ashleigh May, un o sefydlwyr Mums on a Mission, mudiad nid-er-elw sy'n cefnogi ac yn galluogi teuluoedd i dorri'n rhydd o gylch ffyrnig tlodi o un genhedlaeth i'r llall.

Mae Ashleigh yn rhannu ei phrofiad personol o dlodi, digartrefedd, salwch meddwl a datblygu ei llais fel trefnydd cymunedol.

Beth ddaw i'ch meddwl wrth wrando ar hanes Ashleigh a'i phrofiad?

**Gawsoch erioed brofiad o dro annisgwyl yn eich bywyd wedi galwad gan Dduw?**

**Gwrandewch ar: Bryer Mlowoka, Cymdeithas Efengylaidd Malawi –**

https://soundcloud.com/actonpoverty
(6 munud)

Mae Cymdeithas Efengylaidd Malawi yn gorff ambarél i dros 110 o enwadau eglwysig a mudiadau Cristnogol ym Malawi. Cewch glywed gan Bryer Mlowoka, Pennaeth Rhaglenni, sut mae ffydd wrth wraidd gwaith datblygu ac eiriol y Gymdeithas.

**Mae Bryer yn dyfynnu o lyfr proffwyd arall, Micha, gan ddweud: 'Lle bo anghyfianwder, mae angen i'r eglwys lefaru'. Beth ydy eich barn chi am hynny? Beth, yn eich tyb chi, mae'r eglwys wedi'i galw i'w wneud am faterion fel tlodi? Ydych chi'n meddwl fod yr eglwys heddiw yn ateb yr alwad honno?**

**Ysbrydoliaeth: Hanes Margaret**

Gwyliwch ein ffilm fer (5 munud) yma: https://youtu.be/lgzZRNlNZYU

Cewch gyfarfod â Margaret Robinson, cefnogwr pybyr i Gymorth Cristnogol sy'n byw yng ngogledd Dyfnaint, Lloegr.

Margaret ydy'r gyntaf i gydnabod nad ydy hi'n areithydd naturiol. Fodd bynnag, fe deimlodd fod yn rhaid iddi ymateb i alwad Duw i godi ei llais dros gyfiawnder. Cewch glywed sut ddaeth Margaret i ymgyrchu yn ei hardal leol.

**Gweithredu ar Dlodi – Beth fasech chi a'ch eglwys yn gallu ei wneud?**

**Mae Ashleigh, Bryer, a Margaret i gyd yn defnyddio'u sgiliau a'u hangerdd i geisio newid yn eu cymunedau. Maen nhw hefyd yn credu y gallen ni lefaru a dylanwadu ar y rhai hynny sydd mewn grym, yn lleol ac yn fyd-eang.**

**Cam 1:** Ewch ar drywydd yr enghreifftiau y buoch chi'n eu trafod o leisiau proffwydol cyfoes. Chwiliwch a gwrandewch ar un o'r lleisiau hyn yr wythnos hon.

Mae pob Aelod Seneddol yno i gynrychioli eu hetholwyr yn y senedd. Fe allwch alw, ymweld â'ch AS neu sgwennu at eich AS unrhyw bryd. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n cynnal 'cymorthfeydd' un diwrnod yr wythnos, lle gallwch fynd a'u cyfarfod. Mae dyletswydd ar ASau i ymateb ichi ac i ddwyn eich pryderon at sylw'r senedd. Fe wnaeth ymdrechion Margaret gyda Selaine Saxby arwain at ddadl yn y senedd gyda chefnogaeth drawsbleidiol.

**Cam 2:** Wyddoch chi pwy ydy eich Aelod Seneddol? A oes unrhyw un o fewn eich eglwys erioed wedi cyfarfod â'i Aelod Seneddol neu wedi sgwennu at eu AS neu at unrhyw luniwr polisi arall, yn lleol neu'n genedlaethol? A fyddai modd iddyn nhw rannu'r hyn a drafodwyd a beth ddaeth ohono?

**Gweddi i ddiweddu**

Dduw cyfiawnder, a fu'n llefaru trwy'r proffwyd Amos,
Helpa ni i lefaru'r gwir wrth y rhai sydd mewn grym.
Helpa ni i roi sylw i anghydraddoldeb yn ein cymuned.
Dyrchafa leisiau'r rhai hynny sydd heb rym a rho glustiau inni eu clywed.
Heria ni i ddod yn llefarwyr proffwydol yn dy enw ac i alluogi eraill i wneud hynny.
Ysbrydola ni â'th Ysbryd fel y gallwn gydweithio tuag at sicrhau byd mwy cyfiawn.
Yn enw Iesu, Amen.




Bydd llawer o ysgolion Sul a chlybiau plant efallai'n awyddus i ddefnyddio cyfnod Gŵyl Ddewi i ymestyn allan i'r gymuned a chyflwyno hanes / stori Dewi Sant, gan gofio amdano fel mynach, sant, cenhadwr ac efengylydd.

Ar wefan www.ysgolsul.com mae detholiad o adnoddau ar gael i'w lawrlwytho er mwyn cynnal sesiwn o'r fath. Ceir yno ddigon o syniadau, gan gynnwys tair ffilm, taflenni gwaith, caneuon a deunydd defosiwn. Mae dwy gân newydd ar gyfer eleni, gan gynnwys un efo cerddoriaeth gefndir gan Andy Hughes. Am stori a gwers Feiblaidd i arwain at hanes Dewi Sant gellir defnyddio'r wers am Paul a'i ffrindiau o gyfres Golau ar y Gair – ac mae'r adnodd hwn hefyd ar gael am ddim i'w lawrlwytho. O fewn y pecyn gwersi ceir adnoddau'n sôn am waith yr Apostol Paul yn cychwyn ar ei genhadaeth yntau, gan rannu'r newyddion da am Iesu gydag eraill. Gellir wedyn atgoffa'r plant fod Dewi wedi parhau â'r gwaith yma, a heddiw ein bod ninnau, fel y rhai sy'n dilyn Iesu, yn parhau i wneud y gwaith pwysig yma.

Ceir hefyd adnoddau addysgol a gwasanaethau cynradd ac uwchradd yn cyflwyno bywyd Dewi Sant, yn cynnwys dau wasanaeth newydd sbon wedi eu paratoi gan Catrin Roberts. Mae yma ddeunydd ar gyfer oedolion hefyd, ar gyfer oedfa'r Sul, yn wasanaethau cyflawn, emynau gwladgarol a gweddïau.

Mae modd cael mynediad i'r cyfan yma: http://gair.cymru/gwyl-ddewi

## Taro'r Post

At Olygydd *Cenn@d*
Annwyl Syr,

Yr wyf yn sicr ein bod i gyd yn cydymdeimlo â'r trueiniaid a phawb sy'n dioddef effaith y rhyfel yn Gaza ac yn gobeithio ac yn gweddïo am ddiwedd i'r holl ladd a brwydro.

Synnu a gresynu eich bod wedi cyhoeddi erthygl mor unochrog heb unrhyw gydbwysedd ar dudalen 1 a 2 o rifyn 153 (31 Ionawr 2024). Dim sôn am y terfysgwyr Hamas na'r gyflafan ar Hydref 7fed a'r herwgipio a achosodd ymateb Israel. Dim sôn am y ffaith fod Hamas, sy'n honni eu bod yn cynrychioli'r Palestiniaid, yn saethu eu taflegrau i ganol poblogaeth Israel ac yn defnyddio pobl Palesteina, yn cynnwys merched a phlant bach, i guddio tu ôl iddynt heb unrhyw ystyriaeth am fywydau pobl gyffredin Gaza. Dim sôn am y ffaith fod y Palesteiniaid yn cael eu cyflyru o'u plentyndod i gasáu Iddewon a'u hannog i'w lladd er mwyn cael gwared o genedl Israel.

Er cymaint yr ydym yn gresynu fod cymaint o Balesteiniaid yn dioddef, mae gan Israel hawl i'w hamddiffyn ei hun rhag terfysgwyr didrugaredd.

Mae awdur yr erthygl yn sôn yn aml am 'hil-laddiad' ond efallai y dylai yn gyntaf ddarganfod diffiniad y term hwn.

Efallai y cewch gyfle i gyhoeddi erthygl gan berson â barn gytbwys er mwyn i ni gael y ddwy ochr o hanes yr anghydfod rhwng Arab ac Iddew sydd wedi bodoli ers blynyddoedd.

*Yn gywir,*
*W. Jones*
*Llanbedrog*
*Gwynedd*

Diolchwn am yr ymateb i anerchiad David McKnight a gynhwyswyd yn Cenn@d, rhifyn 153. Anerchiad ydoedd a draddodwyd mewn gwylnos heddwch yn nhref eisteddfod ryngwladol Llangollen gan ddwyn i gof draddodiad heddychol y genedl Gymreig yn mynegi barn bersonol. Er na chredir bod un ffaith wedi ei chwyddo yn yr anerchiad, rydym yn derbyn mai o safbwynt Palestinaidd y cyflwynwyd yr wybodaeth a'r gri gan yr offeiriad o Fethlehem, y Parchedig Munther Isaac, am glust a gweithred yr eglwys yn y Gorllewin.

Fe gynhwyswyd gwybodaeth am y rhyfel o'r dechrau yn *Cenn@d,* gyda gerthyglau'n cyfeirio at erchyllterau gweithredoedd mudiad Hamas ar ddechrau'r gwrthdaro. Ceisir eto roi darlun teg a chytbwys yn yr hyn a gyhoeddir am y rhyfel, a byddem yn falch iawn o gyhoeddi cri unrhyw eglwysi neu fudiadau Cristnogol neu rai'n cynrychioli crefyddau eraill, sydd yn pledio dros heddwch, yn hytrach na pharhad a chyfiawnhad i'r rhyfel a'r lladd.

Erbyn i'r rhifyn hwn ymddangos, os na fydd cadoediad brys wedi ei sicrhau, fe welir y bydd dros 36,000 o drigolion Gaza wedi eu lladd gan yr awdurdodau Israelaidd, a nifer y plant fydd wedi eu lladd yn tynnu at 15,000. Gyda 50% o boblogaeth Gaza yn blant a hyd at 40% o'r lladdedigion yn blant, mae hwn yn cael ei gyfrif gan fudiadau dyngarol fel Oxfam fel y rhyfel mwyaf gwaedlyd a dinistriol o ran marwolaethau dyddiol sydd wedi ei ymladd yn ystod y ganrif hon. Mae 250 o Balestiniaid yn marw bob dydd ar gyfartaledd – mwy na'r cyfraddau dyddiol yn Afghanistan, Syria, Sudan, Irac ac Wcráin gyda'i gilydd. Gweler y ddolen isod gan Oxfam am fanylion eu hymchwiliad: https://www.oxfam.org/en/press-releases/daily-death-rate-gaza-higher-any-other-major-21st-century-conflict-oxfam

(Gol.)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru